Dockets

Rydym yn sefyll wrth ymyl cyfres o weithiau celf sy'n cael ei alw'n 'Dockets' gan yr artist Andrew Rowe. Cyfres o baneli dur Corten ydyn nhw. Mae Corten yn ddur sydd yn rhydu, ond ddim yn rhydu go iawn, os ydy hynny'n gwneud synnwyr! Yr hyn fu'n ysbrydoliaeth i Andrew, yr artist, ar gyfer y Gwaith Celf hwn oedd ei fod wedi sylwi ar gyfres o dudalennau o lyfr yn chwythu yn y gwynt wrth iddo gerdded o amgylch y gwaith glo. Yr hyn mae wedi ceisio ei wneud ydy ail-greu'r dalennau hynny'n chwythu yn y gwynt ar hyd ochrau heol y fynedfa. Gweithiodd gyda phlant ysgol leol, a nhw greodd dyluniadau'r anifeiliaid, anifeiliaid sydd i'w canfod o fewn Parc Penalltau, a'r rheini sydd wedi cael eu hail-greu ar y tudalennau i greu cyfres o baneli sy'n dehongli bywyd cyfredol Parc Penalltau.

Os siaradwch chi gydag unrhyw un o'r glowyr, pan fyddan nhw'n son am y Dockets, 'docket' iddyn nhw oedd eu slip cyflog oedd yn dweud yr union swm roedden nhw wedi'i ennill yn gyflog am yr wythnos, ond dyma'r enw mae'r artist wedi'i roi i'r gweithiau celf, ac mae'n dal i fod yn nodwedd ddiddorol wrth i chi ddod i mewn i'r parc.